# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth

## Cofnodion y cyfarfod

Dyddiad: 27/06/17

Lleoliad: Ystafell Gynadledda D

Yn bresennol:

| Enw | Title |
|---|---|
| Huw Irranca-Davies AC | Cadeirydd (yn dirprwyo) |
| Adrian Greason-Walker | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| David Chapman | Cymdeithas Lletygarwch Prydain |
| Adrian Barsby | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Paul Loveluck | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Tim Brace | Asiantaethau Cymru |
| Peter Cole | Cymdeithas Twristiaeth |
| Merlin Tolley | Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain (BH&HPA) |
| Jacqueline Janssen | Cymdeithas Gweithredwyr Hunanddarpar Cymru (WASCO) |
| Jan Meulendijk | Cymdeithas Gweithredwyr Hunanddarpar Cymru (WASCO) |
| Anthony Rosser | Lake Vyrnwy Hotel & Spa |
| Val Hawkins | Twristiaeth Canolbarth Cymru |
| Terry Jackson | This Week Wales |
| Margaret Llewellyn | Bwrdd Cynghori Twristiaeth a Croeso Cymru |
| Robert Hall | Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru |
| Julie James AC | Llywodraeth Cymru - Gweinidog dros Sgiliau a Gwyddoniaeth |
| Craig Lawton | Ysgrifennydd y Grŵp |

Ymddiheuriadau:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Suzy Davies AC | Cadeirydd |

Croesawodd HID yr aelodau a nodi absenoldeb SD, Cadeirydd y Gr□p, sydd ym Mrwsel gyda'r Pwyllgor Materion Allanol ar hyn o bryd.

Roedd JJ, y Gweinidog dros Sgiliau a Gwyddoniaeth, yn bresennol ond angen gadael yn gynnar i fynychu cyfarfod arall. Yn sgil hyn, symudwyd y cwestiynau i'r Gweinidog i ddechrau'r cyfarfod.

Gofynnodd David Chapman i'r Gweinidog a fyddai hi'n gallu mynychu lansiad nesaf y Sgwrs Fawr am Letygarwch (Big Hospitality Conversation) yn Bluestone a pha fath o gefnogaeth ychwanegol y gellid ei rhoi, er enghraifft gwelededd neu gysylltiadau cyhoeddus.

Atebodd JJ ei fod yn bwysig bod grwpiau a sefydliadau yn cyfathrebu â phartneriaethau rhanbarthol a'u bod yn gwneud hynny'n gyson â'i gilydd er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro.

Ychwanegodd JJ fod y sector lletygarwch yn ffynnu ar hyn o bryd, a bod busnes o'r sector lletygarwch yn y rownd derfynol o'r Welsh Business Awards.

Yn ogystal, mae angen cyfathrebu a 'gwerthu' y syniadau a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth y sector twristiaeth i addysg bellach ac addysg uwch.

Rhaid i'r sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch hefyd wneud mwy er mwyn codi eu lefelau eu hunain o gyllid ac incwm preifat. Mae Llywodraeth Cymru yn eu hannog ac yn eu hariannu'n rhannol ond mae'n rhaid i'r colegau chwilio am fwy ar eu liwt eu hunain.

Gofynnodd Archwilydd Cyffredinol Cymru am y cyllid sgiliau a dyraniadau'r cyllid hwn.

Atebodd JJ y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i ymgynghori ar hyn.

Nododd JJ, fodd bynnag, fod angen i grwpiau fel y Grŵp hwn a Chynghrair Twristiaeth Cymru ddweud wrth Lywodraeth Cymru fel ei bod yn gwbl ymwybodol os nad yw hyn yn digwydd ar lawr gwlad.

Mae Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun ar gyfer sgiliau. Fodd bynnag, cyflogwyr sydd yn arwain ar hyn.

Ychwanegodd JJ y gall Llywodraeth Cymru helpu i sicrhau bod busnesau yn cael y cysylltiadau cywir os nad yw'r cysylltiadau hyn eisoes yn bodoli.

Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod gyda "Grow Mid Wales" ynglŷn â chysylltu â De Cymru ac ai dyna fyddai'r cysylltiad gorau.

Gofynnodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch recriwtio ac ychwanegodd fod rhai yn teimlo bod yna brinder pobl yn hytrach na phrinder sgiliau a bod rhaid i'r diwydiant annog fwy o bobl i ystyried lletygarwch a thwristiaeth fel diwydiant i weithio ynddo. Gofynnodd sut y gellid cynnwys ysgolion a chynghorwyr gyrfaoedd yn hyn.

Dwedodd JJ fod Clystyrau Busnes wedi cael eu sefydlu mewn ysgolion i ganiatáu i gyflogwyr ymgysylltu â disgyblion.

Cyflwynwyd Prentisiaethau Iau ar gyfer pobl dros 14 mlwydd oed yng Nghaerdydd fel peilot sy'n rhan o strategaeth Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Diben hyn yn rhannol yw cadw pobl ifanc yn yr ysgol neu mewn addysg.

Gall busnesau bach a chanolig hefyd "rannu" prentisiaid. Mae hyn yn digwydd yn y sector amaeth ond nid yn y sector twristiaeth hyd yn hyn.

Dywedodd JJ ei bod hi'n fwy na pharod i ystyried cynhyrchu cynlluniau rhannu prentisiaeth i gyd-fynd â'r sector twristiaeth. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod hyn yn bosib i'r dysgwyr hynny symud ymlaen i Lefel 3 fel rhan o'r rhaglen.

**Cam gweithredu: bydd y Gr□p yn trafod hyn â'r Gweinidog a'i hadran i annog trafodaeth bellach ar hyn.**

Dywedodd JJ fod angen i'r diwydiant sicrhau bod yna fwy o fusnesau twristiaeth a lletygarwch yn mynychu sioeau sgiliau a ffeiriau hefyd. Gall tîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru helpu gyda hyn os oes angen.

Dywedodd JJ y gall ei hadran hi helpu i fwydo gwybodaeth i Gynghrair Twristiaeth Cymru ynglŷn â sut y gellir defnyddio gwefan "Hwb" Llywodraeth Cymru i hybu'r diwydiant a'r swyddi oddi mewn iddo.

**Cam gweithredu: Ymateb i'r cynigion**

Awgrymodd JJ fod angen i bobl, ysgolion a'r sector wybod am y dewisiadau a'r posibiliadau o ran prentisiaethau yn gynharach yn y flwyddyn yn hytrach nag yn ôl yr angen. Diben hyn yw galluogi pobl i gynllunio ymlaen llaw, yn ogystal â'u hannog i ystyried y sector yn un addas ar eu cyfer pan fyddant yn chwilio am swyddi yn y dyfodol.

Gofynnwyd cwestiwn am yr Ardoll Brentisiaethau ac a fyddai'r rhai sy'n talu'r ardoll yn cael y cyfleoedd gorau.

Ymatebodd JJ y bydd yr arian o hyn yn cael ei ailddosbarthu drwy Fformiwla Barnett. Dywedodd JJ y bydd Llywodraeth Cymru yn cael £90 miliwn o'r Ardoll Brentisiaethau ond, ar yr un pryd, mae'r swm y maent yn ei gael drwy' Fformiwla Barnett o gyllideb yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wedi gostwng.

Gofynnodd JM o'r Gymdeithas Gweithredwyr Hunanddarpar Cymru am gyfleoedd mynediad ar gyfer prentisiaid yn y diwydiant hunanddarpar.

Awgrymodd JJ y byddai hwn yn gyfle da ar gyfer y cynllun rhannu prentisiaethau. Os yw busnesau'n gallu llunio model i dalu, cyflogi, a hyfforddi prentis sydd â'r holl sgiliau angenrheidiol, yna gall Llywodraeth Cymru weithio gyda nhw ar hyn i'w cefnogi.

Cadarnhaodd JJ fod rhai ardaloedd wedi gwneud hyn gyda chymorth awdurdodau lleol. E.e. Mae Cyngor Blaenau Gwent yn 'gorff sy'n cyflogi' mewn rhai achosion ac wedyn yn gweithio gyda busnesau eraill sy'n rhannu'r prentis.

Ychwanegodd JJ fod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar bethau eraill yn ogystal â phrentisiaid, sef swyddi dan hyfforddiant a chynlluniau hyfforddiant yn y gwaith, fel sgiliau digidol.

Dywedodd JJ os gall busnesau weithio gyda choleg i ddod o hyd i'r galw i ddysgu cwrs, a'r bobl sy'n dymuno cymryd rhan, yna gall Llywodraeth Cymru gefnogi hyn hefyd.

Gadawodd JJ y cyfarfod.

**Cytunwyd y byddai cwestiynau pellach yn cael eu hanfon i swyddfa'r Gweinidog.**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

Rhannwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod blaenorol.

Cadarnhaodd MLl o Croeso Cymru fod ganddo restr o ryw 70 o fusnesau a sefydliadau cynrychiadol a'i fod yn fwy na pharod i rannu'r rhestr â'r Grŵp.

**Cam gweithredu - cael rhestr gan Croeso Cymru/MLl**

Dosbarthwyd canllawiau ynglŷn â meini prawf Asiantaeth y Swyddfa Brisio gan Lywodraeth Cymru.

**Cytunwyd y byddai aelodau yn ymateb i Gynghrair Twristiaeth Cymru erbyn mis Medi i'w hysbysu a oedd y canllawiau a'r wybodaeth a ddarparwyd yn gywir o ran sut y cawsant eu cymhwyso.**

Dywedodd MLl mai hi yw cynrychiolydd Cymru o Visit Britain a'i bod hi'n fodlon mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol i drafod brandio Croeso Cymru a sut y gall busnesau fanteisio ar yr adnodd hwn.

**Cytunwyd i wahodd MLI i gyfarfodydd yn y dyfodol ar y pwnc hwn**

Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod yna Brif Swyddog Prisio newydd.

**Cytunwyd i gysylltu**

Dywedodd MLI nad yw twristiaeth ar hyn o bryd yn cael ei hystyried yn ddewis gyrfa gwerthfawr. Awgrymodd fod angen mwy o frandiau a chwmnïau twristiaeth o safon uchel yng Nghymru gan fod y rhain yn darparu hyfforddiant ardderchog. Gall y rheini sydd yn derbyn hyfforddiant wedyn ddefnyddio'r sgiliau i ehangu busnesau neu i sefydlu eu busnesau eu hunain mewn rhai achosion.

Sôniodd Archwilydd Cyffredinol Cymru am fater a godwyd yn flaenorol, sef y ffaith nad yw llawer o gadwyni â'r hawl i ddefnyddio brandio lleol/rhanbarthol o Gymru oherwydd y brandiau corfforaethol sydd ganddyn nhw yn fyd-eang. Gall hyn olygu eu bod ar eu colled braidd o fewn y byd marchnata Cymreig.

Yn ogystal, dywedodd MLI fod colegau mewn gwirionedd yn darparu cyrsiau a hyfforddiant ardderchog ar gyfer y sector twristiaeth, er bod pobl yn tueddu i edrych i'r prifysgolion yn gyntaf ar gyfer cyrsiau.

Ychwanegodd DC fod addysg bellach, addysg uwch a sefydliadau addysg ar lefelau eraill yn aml yn cyfathrebu â'i gilydd, ond yn y bôn rhaid iddynt gysylltu'n well â'r diwydiant ei hun.

Dywedodd RH ei fod yn gallu bod yn anodd ar adegau adnabod bylchau o ran sgiliau.

Ychwanegodd y gall pawb wneud mwy i rannu straeon "newyddion da" o'r diwydiant a hyfforddi.

Awgrymodd DC y gallai'r Sgwrs Fawr am Letygarwch fod yn gyfle da i wneud hyn.

Ychwanegodd hefyd y byddai'n hoffi archwilio'n bellach i'r cyfleoedd sydd ar gael drwy rannu prentisiaethau.

Awgrymodd HID mai un ffordd o gysylltu â mwy o Aelodau'r Cynulliad fyddai cyflwyno "hyrwyddwyr sector" i arddangos y swyddogaethau, cyfleoedd a'r amrywiaeth sydd ynghlwm wrth y sector twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru.

**Cytunwyd i ymdrin â hyn ymhellach.**

Diwedd y cyfarfod.